**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CG/PO/383/2023
Ein cyf/Our ref qA1762325

15 fed Tachwedd 2023

Annwyl John

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Tachwedd mewn perthynas â'r Etholiadau a'r Cyrff Etholedig (Cymru) Bil. Rwyf wedi darparu rhagor o wybodaeth isod mewn ymateb i'ch ymholiadau.

**Cofrestru Etholiadol heb Gais**

Mae'r darpariaethau sy'n gofyn am gofrestr agored yn rhan o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001. Gan mai is-ddeddfwriaeth yw hon, byddwn yn defnyddio is-ddeddfwriaeth i ddileu ei gweithrediad ar gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru. Gwneir hyn yn dilyn Cydsyniad Brenhinol y Bil. I wneud y newid hwn bydd Gweinidogion Cymru yn arfer pwerau o dan Adran 53 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, bydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd.

Mae effaith cael gwared ar y gofrestr agored ar gyfer y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru yn debygol o gael cyn lleied o effaith ar sefydliadau nad ydynt yn gallu cael mynediad i'r gofrestr lawn. Daeth adroddiad yn 2013 gan Dŷ'r Arglwyddi i'r casgliad nad oedd y gofrestr agored yn rhoi unrhyw les i'r cyhoedd ac yn cyflwyno risgiau i breifatrwydd. Daeth i'r casgliad hefyd y gall bodolaeth y gofrestr fod yn anghymhelliad i gofrestru i bleidleisio. O gofio y byddwn yn cofrestru etholwyr yn awtomatig, cael gwared ar fynediad at wybodaeth ar gyfer rhai sefydliadau yn teimlo angenrheidiol i fagu hyder yn y ffordd newydd hon o gofrestru ac i ddiogelu ein dinasyddion. I'r rhai sy'n gymwys i gofrestru ar gyfer y gofrestr Seneddol, bydd y gofrestr agored yn dal i fodoli. Mae hyn yn golygu ein bod yn amddiffyn y bobl ifanc 16 ac 17 oed a fydd ar y gofrestr llywodraeth leol i raddau helaeth ond nad ydynt yn gymwys i fod ar y gofrestr Seneddol. Ar gyfer yr etholwyr hynny ar y gofrestr Seneddol, bydd y dewis yn dal ar waith ynghylch a ydynt am fod ar y gofrestr agored ai peidio.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Gwasanaethau i hyrwyddo amrywiaeth mewn personau sy'n chwilio am swydd etholedig**

Mae'n bwysig bod y rhwystrau sy'n atal pobl rhag sefyll mewn etholiad ac felly'n cymryd rôl lawn mewn democratiaeth yn cael eu nodi a'u datrys. Er ein bod yn glir y gall yr amgylchiadau economaidd-gymdeithasol y mae unigolion ynddynt effeithio ar eu hopsiynau mewn bywyd, mae angen mwy o ymchwil ynghylch y meini prawf priodol i'w defnyddio i bennu cymhwysedd o dan adran 28 o'r Bil a pha fesurau y gellir eu cymryd i gefnogi unigolion.

Felly, byddwn yn comisiynu ymchwil yn y maes hwn cyn bo hir gyda'r nod o nodi camau y gellir eu cymryd i annog pobl ag ystod o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol i ystyried sefyll mewn etholiad. Y bwriad yw nodi lle mae cefndir economaidd-gymdeithasol unigolyn wedi neu y gallai arwain at anghydraddoldeb canlyniad ynghyd â nodi'r mesurau y gellid eu rhoi ar waith i gefnogi unigolion yn ystod y broses etholiadol.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn ystyried croestoriadoldeb a sut y gall nodweddion gwarchodedig gyfuno â rhai amgylchiadau economaidd-gymdeithasol i gyflwyno rhwystrau i gyfranogiad unigolion mewn democratiaeth.

Mae hwn yn faes cymhleth, sy'n gofyn am archwiliad pellach, a byddwn yn chwilio am ystod eang o safbwyntiau i lunio'r meini prawf cymhwysedd a'r gwasanaethau y gellir eu darparu o dan adran 28 o'r Bil.

Edrychaf ymlaen at fynychu'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai eto ar 7 Rhagfyr i drafod y Bil ymhellach.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution